# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 27 Ionawr 2015** |
| Amser: | **08.30 – 08.45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 25 Chwefror 2015**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio'r penderfyniad ar amserlen y Bil tan yr wythnos nesaf i roi amser i ymgynghori â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

4.2 Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad o ran egwyddor a wnaed ar 20 Ionawr i gyfeirio'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1, a chytunwyd ar 26 Mehefin 2015 fel y terfyn amser i'r Pwyllgor adrodd ar Gyfnod 1, a  9 Hydref 2015 fel y terfyn amser i gwblhau trafodion Cyfnod 2 y Pwyllgor.

## 5 Pwyllgorau

5.1 Y Pwyllgor Menter a Busnes: Cais i ymweld â Manceinion

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gais gan y Pwyllgor Menter a Busnes i ymweld ag Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf ddydd Iau 5 Mawrth 2015, sy'n golygu y bydd yn rhaid i Aelodau adael y Cynulliad cyn diwedd y Cyfarfod Llawn ar y dydd Mercher.

**Unrhyw Fater Arall**

Cododd Gweinidog Busnes y Llywodraeth y mater ynghylch y Pwyllgor yn rhoi sylw i gael gwared â'r amddiffyniad o gosb resymol ar gyfer cosbi plant yn gorfforol. Ar 2 Rhagfyr 2014, pleidleisiodd Rheolwyr Busnes yn erbyn trefnu dadl ar y cynnig i gytuno ar aelodaeth y pwyllgor. Cadarnhaodd Rheolwyr Busnes nad oedd eu safbwynt wedi newid.